

# Gwella'r Gair Atebion

Adran

# B

Non ap Emlyn  
Bethan Clement

# Cynnwys

## Sgiliau geiriadur

Tud 107	1
---------	---

## Treigladau

Tud 108	1
---------	---

Tud 109	2
---------	---

## Atalnodi

Tud 110	2
---------	---

Tud 111	3
---------	---

## Cysyllteiriau

Tud 112	3
---------	---

Tud 113	4
---------	---

Tud 114	4
---------	---

## Enwau

Tud 115	4
---------	---

Tud 116	5
---------	---

Tud 117	5
---------	---

## Ansoddeiriau

Tud 118	6
---------	---

Tud 119	6
---------	---

## Rhagenwau

Tud 120	7
---------	---

Tud 121	8
---------	---

## Berfau

Tud 122	9
---------	---

Tud 123	9
---------	---

Tud 124	10
---------	----

Tud 125	10
---------	----

Tud 126	11
---------	----

Tud 127	11
---------	----

Tud 128	12
---------	----

Tud 129	12
---------	----

Tud 130	13
---------	----

Tud 131	14
---------	----

Tud 132	15
---------	----

Tud 133	16
---------	----

## Arddodiaid

Tud 134	17
---------	----

Tud 135	17
---------	----

Tud 136	17
---------	----

Tud 137	18
---------	----

# Sgiliau geiriadur

## Tud 107

### Rheolau'r Ystafell Ymarfer Corff

1. Gwisgwch eich **esgidiau**.
2. Arhoswch y tu allan i'r **drws** yn dawel ac yn drefnus.
3. Peidiwch â siarad na gwthio wrth fynd i mewn i'r **ystafell**.
4. Eisteddwch yn dawel ar y **meinciau**.
5. Gwrandewch yn ofalus ar yr **athrawes**.

### Rheolau'r Ffreutur

1. Gwnewch **linell** drefnus yn y **ffreutur**.
2. Dewiswch eich **bwydydd** ac ewch i eistedd wrth y **byrddau**.
3. Ar ôl i chi orffen bwyta, cliriwch y **llestri** i gyd cyn gadael.

# Treigladau

## Tud 108

- |            |         |            |          |
|------------|---------|------------|----------|
| 1. fynd    | mynd    | 6. redeg   | rhedeg   |
| 2. deithio | teithio | 7. got     | cot      |
| 3. gofodd  | cofodd  | 8. wneud   | gwneud   |
| 4. chot    | cot     | 9. wallgof | gwallgof |
| 5. nghot   | cot     | 10. phoeni | poeni    |

## Tud 109

### Colofn 1

1. technoleg
2. raglen
3. Chanolfan
4. Nghaerdydd
5. fater

### Colofn 2

- treigladau
- treigladau meddal
- treigladau
- treigladau trwynol
- treigladau meddal

## Atalnodi

## Tud 110

Oddi wrth: Robyn

At: Nadine

Pwnc: Sut mae?

**A**nnywyl Nadine,

Sut wyt ti? Rwy'n gobeithio dy fod yn teimlo'n well. Rwy eisiau dod draw i dy weld di cyn diwedd yr wythnos os yw hynny'n iawn gyda ti. Mae pawb yn yr ysgol yn cofio atat ti, ond, yn anffodus, mae Miss yn anfon gwaith mathemateg, Cymraeg a Saesneg atat ti.

Aethon ni am drip i Gastell Henllys yr wythnos diwetha. Roedd gweld sut roedd y Celtiaid yn byw yn ddiddorol iawn. Roedd y tywydd yn ofnadwy ac roedden ni'n wlyb diferu yn mynd yn ôl i'r bus. "Tynnwch eich cotiau gwlyb," meddai Miss. Tynnwn ni'n cotiau a dechrau ar y daith adre ar ôl cael diwrnod wrth ein bodd.

Cei di hanes y diwrnod yn llawn pan wela i di.

Cofion,  
Robyn.

### Dydd Sadwrn

Y penwythnos o'r diwedd. Hwre! Roeddwn i wedi bod yn edrych ymlaen gymaint at rownd derfynol y gystadleuaeth. Ces i ddiwrnod ardderchog achos enillon ni yn erbyn y Llan ac Aber.

Yn anffodus, collon ni yn y rownd gyn-derfynol ac felly roedden ni gartref erbyn hanner awr wedi tri. Roedd lasagne i de. Mwynheais i'n fawr iawn. Yna, aethon ni i'r sinema fel teulu.

## Cysyllteiriau

1. ac
2. a
3. a
4. ac

Y bore 'ma, codais i'n gynnar **ac** es i i'r ysgol erbyn hanner awr wedi wyth achos roedd ymarfer dawns gen i. Buon ni'n ymarfer am hanner awr **ac** yna, aethon ni i gael brechwast o dost **ac** wy wedi ferwi. Bwytais i'r bwyd yn gyflym **ac** yfais i ychydig ddŵr. Roeddwn i'n barod i fynd i'r dosbarth pan ddaeth y pennaeth ata i a gofyn i fi fynd ar neges drosti. Cerddais i'n gyflym i'r uned feithrin **a** rhoi'r neges i Mr Davies. Erbyn i mi wneud hyn i gyd, roeddwn i wedi blino a doeddwn i ddim wedi dechrau ar fy ngwersi eto!

## Tud 113

1. Yn gyntaf, golchwch eich dwylo a gwisgwch ffedog.
2. Yna, mesurwch y cynhwysion yn ofalus.
3. Golchwch y llysiâu.
4. Ffriwch y cig am ychydig cyn ei roi yn y sosban achos bydd hyn yn rhoi gwell blas i'r cawl.
5. Yn olaf, berwch y cyfan ar wres cymhedrol am ddwy awr.

## Tud 114

- |              |            |
|--------------|------------|
| 1. ac        | 4. felly   |
| 2. Yn gyntaf | 5. ac      |
| 3. achos     | 6. Yn olaf |

## Enwau

## Tud 115

1. pedwar afal
  2. dwy dorth
  3. tri pheccyn o fenyn
  4. dau oren
  5. tair potelaid o laeth
- 
1. pedwar tun o ffa pob
  2. dwy botelaid o bop
  3. tri physgodyn
  4. dau gyw iâr
  5. tair teisen fach

## Tud 116

- |    |           |     |           |
|----|-----------|-----|-----------|
| 1. | ffrindiau | 6.  | fuchod    |
| 2. | pethau    | 7.  | teirw     |
| 3. | ffermydd  | 8.  | defaid    |
| 4. | mrodyr    | 9.  | cheffylau |
| 5. | chwirydd  | 10. | brofiadau |

## Tud 117

- |    |                    |     |            |
|----|--------------------|-----|------------|
| 1. | teithiau           | 6.  | ddiwrnodau |
| 2. | bysys/bysiau       | 7.  | bagiau     |
| 3. | mynyddoedd         | 8.  | siopau     |
| 4. | gwestai            | 9.  | liffiau    |
| 5. | ystafelloedd gwely | 10. | llethrau   |

# Ansoddeiriau

## Tud 118

### Y Parti

*Mae Lyn a Ceri mewn parti yn nhŷ Elis.*

Lyn: Mae'r parti yma'n **dda**.

Ceri: Ydy. Mae'n **wych**.

Lyn: *(yn pwyntio at gacen ar ganol y bwrdd)* Wyt ti eisiau darn o gacen? Mae'n **flasus**.

Ceri: Diolch. Mmmm, *(yn bwyta)* mae'n **felys**. O, dyma Elis yn dod.

Elis: *(yn cerdded tuag atyn nhw)* Diolch am ddod i'r parti. Ydych chi'n mwynhau?

Ceri: O, ydyn, diolch, Elis. Mae popeth yn grêt ac mae'r bwyd yn **fendigedig**.

Elis: Diolch i chi am yr anrhegion pen-blwydd. Rydych chi'n **garedig** iawn.

Lyn: Croeso.

Elis: *(yn cerdded tuag at barasiwt sydd ar ganol y llawr)*. Edrychwch, rydyn ni wedi cael benthgys parasiwt. Ydych chi eisiau dod i chwarae gemau parasiwt?

Lyn: *(yn edrych ar y parasiwt)*. Mae'n **fawr** iawn.

Ceri: Mae'n **lliwgar** iawn hefyd.

Elis: *(yn galw ar bawb arall yn y parti)*. Dewch i chwarae gemau parasiwt, bawb. Ydych chi'n **barod** i gael hwyl? Mae gemau parasiwt yn **gyffrous** iawn. Dewch ...

## Tud 119

### Sioe anifeiliaid

Ble: Yn y parc

Pryd: Dydd Sadwrn, Gorffennaf 4, 10:30-1:00

Beth: Anifeiliaid **bach** a mawr

**Hen** anifeiliaid ac anifeiliaid ifanc

Gwobrau **gwyh**

Mae'r sioe anifeiliaid yn **gyffrous** bob blwyddyn.

Dewch yn **gynnar!**



Es i i lan y môr gyda'r teulu ac roedd e'n **wych**. Ces i amser anhygoel!

Roedd y tywydd yn heulog ac roedd hi'n andros o **gynnes**. Roedd hi'n rhy **boeth** i chwarae ar y tywod!

Felly, aethon ni i nofio yn y môr. Roedd e'n ffantastig.

Roedd Mam wedi paratoi picnic i ni - brecheddau tomato ac wy (fy hoff **frecheddau** i), cacen **flasus** tu hwnt, ffrwythau ac iogwrt. Roedd rhaid i ni fwyta'r gacen i gyd achos roedd hi'n toddi yn y gwres. Doedd hyn ddim yn broblem i ni!

## Rhagenwau

### Tud 120

- Tim: Wyt ti wedi gweld **fy nghot** i?
- Nichola: Mae hi o dan **dy fag di** ar y peg yn yr ystafell gotiau.
- Tim: Ydy, wrth gwrs, roeddwn i wedi anghofio'i bod hi gyda **fy mag i**. Ydy **dy sgidiau ymarfer corff di** gyda ti?
- Nichola: Ydyn, maen nhw yn y bag. Dere, neu byddwn ni'n hwyr i fynd i weld **fy mrawd i yn ein tŷ ni**.
- Tim: O'r gorau ond rydw i wedi anghofio nôl **fy ffliw** i o'r ystafell gerdd.
- Nichola: O na! Rwyd ti'n waeth na **fy nhad** am anghofio pethau. Rwyd ti'n lwcus bod **dy ben di'n** sownd!
- Tim: Paid â siarad dwlu. Does neb cynddrwg â **dy deulu di** am anghofio pethau.

Oddi wrth: Steff

---

At: Ceri

---

Pwnc: Diolch

---

Annwyl Ceri

Gair yn fyr i ddiach i ti am **dy anrheg di** a'r cerdyn. Ces i ben-blwydd bendigedig. Ches i ddim parti eleni ond aeth fy **nhad** â fi a fy **mrawd** allan am bryd o fwyd. Roedd y bwyd yng Nghanolfan y Felin yn fendigedig. Roedd popeth mor flasus! Doedd dim byd ar ôl ar ein **platiau** ni! Rwy'n edrych ymlaen yn barod at ben-blwydd **fy mrawd i** y mis nesa i ni gael mynd yno eto.

Ar y ffordd adre, gwelon ni Mari yn y parc. Roedd ei **chi** bach newydd gyda hi. Prynodd ei **thad** hi fe iddi hi ar ei **phen-blwydd** hi fis yn ôl. Roedd e mor ciwt! Roedden ni wrth ein **bodd** yn chwarae gyda fe.

Unwaith eto, diolch i ti am dy **gerdyn** a'r anrheg. Dere draw i'n gweld ni cyn bo hir.

Cofion

Steff

# Berfau

## Tud 122

Oddi wrth: Alex Tomos

---

At: Sam Evans

---

Pwnc: Parti pen-blwydd

---

Helo Sam

Rydw i'n cael parti pen-blwydd ddydd Sadwrn nesaf. Mae Mam a Dad yn trefnu syrpreis i fi. Maen nhw'n mynd i yrru 3 ffrind a fi i rywle arbennig ac yno rydyn ni'n mynd i wneud pethau diddorol. Rydw / Rwyf i'n teimlo'n gyffrous iawn oherwydd rydw / rwyf i'n hoffi cael syrpreis.

Mae Jo a Chris yn dod. Wyt ti eisiau dod hefyd?

Hwyl

Alex

## Tud 123

Mae Matt yn hwyl! Mae e'n byw drws nesaf i fi ac rydyn ni'n cael llawer o hwyl gyda'n gilydd.

Mae e'n byw gyda'i bedwar brawd a'i fam a'i dad ac maen nhw'n deulu hyfryd. Maen nhw i gyd yn hoffi chwarae pêl-droed ac weithiau, rydw i'n / rwy'n mynd i chwarae gyda nhw yn yr ardd. Mae pawb yn mwynhau ac, fel arfer, mae mam Matt yn dod â diod oer i ni yn yr ardd.

Mae Matt yn berson penderfynol iawn. Mae e eisiau ennill bob amser.

### Amser cofrestru

*Mae Miss Ifans yn cofrestru'r dosbarth.*

Miss Ifans: Irfan? ... Irfan?

Lois: **Dydy** e ddim yma, Miss.

Miss Ifans: O, diar! Ceri.

Ceri: Yma, Miss.

Miss Ifans: Wyt **ti** eisiau cinio ysgol heddiw, Ceri?

Ceri: Dim diolch, Miss. **Dydw** i ddim yn cael cinio ysgol heddiw.

Miss Ifans: lawn, Ben a Matt, ydych chi'n cael cinio heddiw?

Ben a Matt: Dim diolch. **Dydyn** ni ddim yn cael cinio ysgol heddiw.

Miss Ifans: lawn, diolch yn fawr. Nawr 'te, ble mae'r llyfrau mathemateg?  
**Dydyn** nhw ddim ar y bwrdd.

### Pam mae rhaid i ni wisgo gwisg ysgol?

**Dydw** i ddim yn hoffi gwisgo gwisg ysgol!

Yn gyntaf, **dydy'r** dillad ddim yn gyfforddus. Rydw i'n hoffi gwisgo treinyrs, crys T a jîns oherwydd maen nhw'n gyfforddus ond mae'r wisg ysgol yn anghyfforddus - yn enwedig os ydych chi'n chwarae pêl-droed amser chwarae. **Dydyn** ni ddim yn gallu rhedeg o gwmpas yn hawdd mewn trowsus llwyd smart ac esgidiau du!

Mae rhai pobl yn dweud bod gwisg ysgol yn dda achos mae pob plentyn yn edrych yr un fath. Wel, beth am farn y plant? **Dydyn** nhw ddim eisiau edrych yr un fath â phawb arall.

Yn bendant, dydw i ddim yn hoffi'r wisg ysgol a dydw i **ddim eisiau** gwisgo'r wisg yfory eto!

### Bore dydd Sadwrn

Dad: Wyt ti eisiau mynd i'r pwll nofio y bore 'ma?

Chris: **Ydw**, os gweli di'n dda.

Dad: Ydy Elin a Robin yn mynd i nofio y bore 'ma?

Chris: **Nac ydyn**, dim heddiw. Maen nhw'n mynd i weld Nain.

Dad: Ydy Nain yn byw yn y dref?

Chris: **Ydy**, mae hi'n byw wrth yr orsaf. Ydyn ni'n mynd i siopa ar ôl bod i'r pwll nofio?

Dad: **Ydyn**. Rhaid i ni brynu esgidiau newydd i ti i'r ysgol. Ydy hi'n bwrw glaw tu allan?

Chris: **Nac ydy**, mae hi'n braf iawn.

### Trefnu parti pen-blwydd

Mam: Wyt ti eisiau parti pen-blwydd eleni?

Sam: **Ydw**, os gwelwch yn dda.

Mam: Ydy dy ffrindiau di'n cael partïon pen-blwydd?

Sam: **Ydyn**. Mae Erin yn cael parti yn y tŷ ac mae Zian yn cael parti yn y pwll nofio.

Mam: Ydy Idris yn cael parti?

Sam: **Ydy**, yn y pwll nofio.

Mam: Ble wyt ti eisiau cael dy barti di?

Sam: Dw i eisiau cael parti i fi a fy ffrindiau gorau yma os gwelwch yn dda.

Mam: Ydych chi eisiau chwarae gemau yn yr ardd?

Sam: **Ydyn**.

Mam: Wyt ti eisiau cacen pen-blwydd?

Sam: **Ydw**, os gwelwch yn dda.

### Byw yn ystod yr Ail Ryfel Byd

Rydw i'n gallu cofio'r Ail Ryfel Byd yn iawn.

**Roeddwn** i'n siopa mewn siopau bach fel y siop ddillad, y siop fwyd, y siop fara, y siop gig. Doedd dim archfarchnadoedd.

**Roedden** ni'n defnyddio llyfrau cwponau ac arian i brynu bwyd.

**Roedd** ffrindiau newydd yn yr ysgol. **Roedden** nhw'n dod o Lundain. Faciwîs oedden nhw.

Roedden ni i gyd yn ffrindiau da ac **roedden** ni i gyd yn chwarae'n hapus gyda'n gilydd amser chwarae.

Roedd bwyd yn brin yn ystod yr Ail Ryfel Byd ac felly **roedden** ni'n tyfu llawer o lysiau yn yr ardd. **Roeddwn i'n** hoffi helpu Mam yn yr ardd achos roedd e'n hwyl. **Roedden** ni'n bwyta llawer o lysiau a ffrwythau.

**Doedden** ni ddim yn bwyta orennau a bananas achos doedd y ffrwythau yma ddim ar gael.

Roedd pobl yn gwranddo ar y radio ac yn darllen ond **doedden** nhw ddim yn chwarae gemau cyfrifiadur fel heddiw oherwydd doedd dim gemau cyfrifiadur ar gael.

### Dydd Sadwrn, Gorffennaf 8

Roedd heddiw'n grêt — trip i Aberystwyth!

**Codais** i am saith o'r gloch. Yna, ar ôl brècwast, aeth Mam, Rhys a fi i'r arhosfan i ddal y bus.

Ar y bus, **canon** ni a bwytais i siocled — gormod o siocled achos roeddwn i'n teimlo braidd yn sâl wedyn.

Yn Aberystwyth, **chwaraeon** ni golff gwirion ar y prom a **nofion** ni yn y môr.

Bwyton ni ginio mewn caffi. **Bwytais** i sglodion a ffa. Roedd y bwyd yn flasus iawn.

### Dydd Sul, Gorffennaf 9

Roedd heddiw'n ddiwrnod diflas iawn achos roeddwn i'n teimlo'n sâl.

*Ddeffrais* i ddim tan ddeg o'r gloch a *fwytais* i ddim byd drwy'r bore ond yfais i ychydig o ddŵr. O, roeddwn i'n teimlo'n ddiflas!

Y prynhawn 'ma, roeddwn i'n teimlo'n sâl o hyd, felly *wnes* i ddim byd - *ddarllenais* i ddim, *wyliais* i ddim byd ar y teledu, chwaraeais i ddim gêm.

Bwytais i ychydig o swper ac rydw i'n teimlo ychydig yn well erbyn hyn, ond rydw i'n mynd i gysgu'n gynnar, felly nos da!

### Dydd Sul, Gorffennaf 9

Roedd heddiw'n ddiwrnod diflas iawn achos roedd Alex yn teimlo'n sâl.

*Ddeffrodd e / o* ddim tan ddeg o'r gloch a *fwytodd e / o* ddim byd drwy'r bore ond *yfodd e / o* ychydig o ddŵr. O, *roedd e'n / o'n* teimlo'n ddiflas!

Y prynhawn 'ma, *roedd e'n / o'n* teimlo'n sâl o hyd, felly *wnaeth e / o* ddim byd - *ddarllenodd e / o* ddim, *wyliodd e / o* ddim byd ar y teledu, *chwaraeodd e / o* ddim gêm.

*Bwytodd e / o* ychydig o swper ac *mae e'n / o'n* teimlo ychydig yn well erbyn hyn, ond *mae e'n / o'n* mynd i gysgu'n gynnar, felly nos da!

### Dod i'r ysgol

*Mae Surita a Miriam yn siarad ar yr iard.*

Surita: **Ddest** ti i'r ysgol yn y car y bore 'ma?

Miriam: **Naddo.**

Surita: **Gerddaist** ti?

Miriam: **Do.** Cerddais i gyda John a Sophie, Blwyddyn 6.

Surita: **Weloch** chi'r eliffant tu allan i'r siop newydd?

Miriam: Pardwn? Eliffant tu allan i'r siop newydd?

Surita: Wel, dyn oedd e, wedi ei wisgo fel eliffant. Roedd e'n sefyll tu allan i'r siop newydd, yn gwahodd pobl i mewn.

### Y Penwythnos

*Mae'r dosbarth yn defnyddio holiadur i ofyn i'w gilydd am y penwythnos.*

Yasseen: **Wyliaist** ti'r teledu dros y penwythnos?

Lois: **Naddo.**

Yasseen: **Ddarllenaist** ti lyfr dros y penwythnos?

Lois: **Do** a darllenis i gomic.

Yasseen: Diolch, Lois. Aled ac Idris, **fwytoch** chi rywbeth diddorol dros y penwythnos?

Aled: Bwytais i gyrru – blasus iawn!

Idris: Bwytais i frechdanau caws nos Wener, dydd Sadwrn a dydd Sul. Dw i'n hoffi brechdanau caws yn fawr.



### **Golchi dwylo**

Mae cael dwylo glân yn bwysig. Felly golchwch eich dwylo:

- cyn bwyta
- ar ôl bod i'r toiled
- ar ôl cyffwrdd ag anifeiliaid
- unrhyw bryd pan fyddan nhw'n frwnt.

Sut i olchi'ch dwylo:

- **agorwch** y tap
- **defnyddiwch** sebon
- **rhwbiwch** y sebon yn dda i mewn i'ch dwylo
- **golchwch** y sebon i ffwrdd.

**Cofiwch** sychu'ch dwylo'n dda ar ôl gorffen.

### **Rheolau'r pwll nofio**

1. Gwisgwch yn addas bob amser.
  2. Ewch i mewn i'r gawod cyn mynd i mewn i'r pwll.
  3. Meddyliwch am bobl eraill felly:
    - dim rhedeg wrth ochr y pwll nofio
    - dim deifio i mewn i'r pwll
    - dim sblasio.
  4. Byddwch yn ofalus bob amser.
  5. Ymolchwch o dan y gawod ar ôl dod allan.
- Diolch.

## Assia Jones

Mae Assia yn ferch arbennig iawn.

Mae hi'n ddeg oed ac mae hi'n byw gyda'i theulu yn Ninbych. Mae hi'n mwynhau'r ysgol ac mae hi'n canu'r piano ond **dydy hi ddim** yn hoffi ymarfer. Pam mae hi'n arbennig? Oherwydd mae hi'n hoffi rhedeg mewn marathonau i blant. Wythnos diwetha, **enillodd hi** Marathon Gogledd Cymru. **Roedd** hi'n hapus iawn ar ddiwedd y marathon a dywedodd hi, "Dyma'r marathon gorau erioed!"

Mae hi'n berson cydwybodol iawn ac felly bob dydd ar ôl yr ysgol, mae hi'n mynd i redeg gyda'i mam. Fel arfer, **maen** nhw'n rhedeg o gwmpas y parc. **Dydyn** nhw ddim yn rhedeg o gwmpas y dref oherwydd y traffig.

Mae Assia yn ofalus iawn gyda'i diet oherwydd mae **hi** eisiau cadw'n iach. **Dydy** hi ddim yn bwyta pethau fel creision a sglodion ond mae hi'n bwyta bwyd iach bob amser.

Y llynedd, **penderfynodd** hi redeg yn ei marathon cyntaf ar gyfer plant ac felly dechreuodd hi ymarfer. Roedd hi'n ymarfer bob dydd cyn y digwyddiad ac **roedd** hi'n nofio hefyd er mwyn bod yn heini.

Rhedodd hi'n arbennig o dda yn ystod y marathon a gorffennodd hi'n ail. Ar ddiwedd y marathon, **dywedodd Assia**, "Dw i wedi mwynhau fy hun yn fawr a dw i'n mynd i redeg mewn llawer o farathonau o hyn ymlaen."

Mae hi'n dal i redeg mewn marathonau. Mae hi'n dal i gadw'n heini. Ydy, mae Assia yn ferch arbennig iawn.

# Arddodiaid

## Tud 134

### Colofn 1

1. Nghanolfan
2. bedwar
3. Mhontarddulais
4. gae
5. gapten

### Colofn 2

- treiglاد trwynol
- treiglاد meddal
- treiglاد trwynol
- treiglاد meddal
- treiglاد meddal

## Tud 135

1. am y
2. ohonyn
3. amdanyn
4. gennyf i
5. mewn
6. arnat
7. ohonon
8. ohonoch
9. amdanat
10. amdanoch

## Tud 136

### Cyhoeddiad y pennaeth yn y gwasanaeth

Y bore 'ma rwy eisiau siarad â chi am **ardd** newydd yr ysgol. Bydd Blwyddyn pump yn dechrau plannu llysiau a blodau **ynddi** wythnos nesa. Blwyddyn chwech fydd yn gyfrifol am **ddyfrio** yn ystod yr wythnos gyntaf ond wedyn bydd pob blwyddyn yn cymryd eu tro. Bydd llawer o gyfrifoldeb **arnoch** chi i gyd.

Am **ddau** o'r gloch yfory, bydd Mr Roberts, y prif arddwr yn **Nhalybont**, yn siarad am **dyfu** blodau a llysiau. Bydd yn well i chi **wrando'n** ofalus os ydych chi eisiau i'r prosiect lwyddo.

Ysgol y Waun

Trefechan

23 Chwefror

Annwyl Ms Hassan,

Rwy'n ysgrifennu **atoch** chi ar ran y Cyngor Ysgol i ddiolch **i** chi am ddod i siarad **â** ni. Doedden ni ddim yn gwybod dylen ni frwsio'n dannedd ddwywaith bob dydd. Ar ôl gwranddo **arnoch** chi, mae pob un **ohonon** ni'n brwsio'n dannedd yn gyson.

Roedd cywilydd **arnon** ni pan glywon ni chi'n siarad achos dim ond unwaith y dydd roedd y rhan fwyaf **ohonon** ni'n brwsio'n dannedd. Mae **gennyf i** ddau frws newydd nawr achos dywedoch chi dylen ni eu newid yn aml.

Unwaith eto, diolch yn fawr **i chi** am ddod i'r ysgol i siarad **am ofal** dannedd.

Yr eiddoch yn gywir,

Nansi Mair